Swyddog Canlyniadau / Returning Officer

Dafydd Gibbard
Gofynnwch am/Ask for: Huw Elfed Roberts
☎(01286) 679623
Etholiad@gwynedd.llyw.cymru

Mawrth/March 2022

At: Glercod Cynghorau Cymuned

Annwyl Syr/Fadam,

Etholiadau Cynghorau Tref / Cymuned

Fel y gwyddoch, bydd etholiadau Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref/Cymuned yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2022. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu dosbarthu'r paciau enwebu amgaeedig i'ch aelodau sy'n dymuno bod yn ymgeiswyr yn yr etholiad.

Mae'n bwysig nodi bod newidiadau i'r drefn enwebu eleni

Cyflwyno
Mae dwy ffordd o gyflwyno'r papurau bellach – drwy law a thrwy e-bost. Bydd angen eu dychwelyd **rhwng 21/03/22** a diwedd y cyfnod enwebu sef **4.00pm 05/04/22**.

Drwy Law

Gellir eu dychwelyd i swyddfa'r Cyngor yng Nghaernarfon neu Ddolgellau

Drwy E-bost

Gellir hefyd gyflwyno'r ffurflenni drwy e-bost drwy eu hanfon at enwebidadau@gwynedd.llyw.cymru Rhaid defnyddio'r cyfeiriad penodol yma a rhaid iddynt gyrraedd heb fod yn hwyrach na **4.00pm ar 05/04/22**. Bydd yr amser derbyn yn cael ei benderfynu ar sail yr amser y cofnodir derbyn yr e-bost ar system gyfrifiadurol y Swyddog Canlyniadau ar gyfer y cyfeiriad e-bost uchod. Rhaid anfon y papurau enwebu fel atodiad pdf, Word neu JPEG

Ar ôl gwirio'r papurau, byddwn yn anfon Hysbysiad Dilysrwydd at yr ymgeisydd drwy e-bost yn cadarnhau os yw'r enwebiad yn ddilys ai peidio

To: Clerks to Community Councils

Dear Sir / Madam,

Town / Community Council Elections

As you know, County Council and Town / Community Council elections will be held on 5 May 2022. I would be grateful if you could distribute the enclosed nomination packs to your current members who wish to be candidates in the election.

It is important to note that there are changes to the nomination process this year

Submission
There are now two ways to submit the papers - by hand or by email. They will need to be returned between **21/03/22** and the end of the nomination period, which is **4.00pm on 05/04/22**.

By Hand

They can be returned to the Council office in Caernarfon or Dolgellau

By Email

The forms can also be submitted by email to nominations@gwynedd.llyw.cymru This specific address must be used and the email must arrive **no later than 4.00pm on the 05/04/22**. The time of receipt will be determined by the time the email is recorded as having been received on the Returning Officer's computer system for the above email address. Nomination papers must be sent as a pdf, Word or JPEG attachment

After checking the papers, we will send the candidate a Notice of Validity by email confirming whether the nomination is valid or not

Swyddog Canlyniadau / Returning Officer

Dafydd Gibbard
Gofynnwch am/Ask for: Huw Elfed Roberts
☎(01286) 679623
Etholiad@gwynedd.llyw.cymru

Newidiadau eraill

- Nid oes bellach angen cynigwyr ac eilyddion dim ond un tyst i dystio llofnod yr ymgeisydd. Nid oes cyfyngiadau ar bwy all fod yn dyst.

- Bydd rhaid i bob ymgeisydd ddatgan os ydynt wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol ai peidio yn ystod y 12 mis cyn dyddiad cyhoeddi'r Rhybudd Etholiad.

- Mae Ffurflen Cyfeiriad Cartref ar wahân, sy'n rhaid i bawb ei chwblhau. Gall ymgeiswyr ddewis nad yw eu cyfeiriad cartref yn cael ei wneud yn gyhoeddus nag yn ymddangos ar unrhyw rybudd neu bapur pleidleisio.

Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr wedi cwblhau'r ffurflenni perthnasol i gyd yn gywir cyn eu cyflwyno. Mae taflen esboniadol yn rhan o'r Pecyn Enwebu ac mae canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gwblhau'r enwebiad ar eu safle we: www.electoralcommission.org.uk (drwy glicio ar *"Rwyf yn …"* a dewis *'Ymgeisydd neu Asiant'*)

Dylai ymgeiswyr sy'n sefyll dan enw plaid wleidyddol fod yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno tystysgrif a roddwyd gan neu ar ran swyddog enwebu cofrestredig y blaid honno.

Cysylltwch â'n swyddfa os dymunwch fwy o wybodaeth am yr uchod. Byddwn yn eich hysbysu os bydd etholiad yn cael ei gystadlu ynteu beidio wedi'r cyfnod derbyn enwebiadau.

Gan ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Other changes

• There is no longer a need for proposers and seconders. There must be one witness to attest the candidate's signature. There are no restrictions on who can be a witness.

• All candidates must declare whether or not they have been a member of a political party in the 12 months preceding the date of publication of the Notice of Election.

• There is a separate Home Address Form that all candidates must complete. Candidates can choose that their home address is not made public or appear on any notice or ballot paper.

It is important that the candidates have completed all the relevant forms correctly before submitting them. An explanatory leaflet is included in the Nomination Pack, and the Electoral Commission's guidance on completing the nomination is on their website: www.electoralcommission.org.uk (by clicking on *'I am …'* and selecting *'Applicant or Agent'*)

Candidates standing in the name of a political party should be aware of the need to submit a certificate issued by or on behalf of that party's registered nominating officer.

Please contact our office if you would like more information on the above. We will inform you whether or not an election will be contested after the period for receiving nominations.

Thanking you in advance for your cooperation.

Yn gywir / Yours sincerely

Huw Elfed Roberts

DIRPRWY SWYDDOG CANLYNIADAU/ DEPUTY RETURNING OFFICER

Etholiad@gwynedd.llyw.cymru /
Election@gwynedd.llyw.cymru

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
www.gwynedd.gov.uk